

BRO DWYNWEN 23/03/2025
Trydydd Sul yn Y Garawys
Third Sunday of Lent

Colect 46

Hollalluog Dduw, nad aeth dy Fab anwylaf i fyny i lawenydd cyn iddo yn gyntaf ddioddef poen, na mynd i mewn i'r gogoniant cyn iddo gael ei groeshoelio: caniatâ yn drugarog i ni, gan gerdded ffordd y groes, gan fod nad yw'n ddim arall ond ffordd bywyd a thangnefedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 46

Almighty God, whose most dear Son went not up to joy but first he suffered pain, and entered not into glory before he was crucified: mercifully grant that we, walking in the way of the cross, may find it none other than the way of life and peace; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Eseia 55. 1-9

"Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian; prynwch a bwytwch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl. Pam y gwariwch arian am yr hyn nad yw'n fara, a llafurio am yr hyn nad yw'n digoni? Gwrandewch arnaf yn astud, a chewch fwyta'r hyn sydd dda, a mwynhau danteithion. Gwrandewch arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw. Gwnaf â chwi gyfamod tragwyddol, fy ffyddlondeb sier i Ddafydd. Edrych, rhois ef yn dyst i'r bobl, yn arweinydd a chyfarwyddwr i'r bobl. Edrych, byddi'n galw ar genedl nid adweini, a bydd cenedl nad yw'n dy adnabod yn rhedeg ataf; oherwydd yr ARGLWYDD dy Dduw, o achos Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu." Ceisiwch yr ARGLWYDD tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr ARGLWYDD, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth. "Oherwydd nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i," medd yr

ARGLWYDD. "Fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear, y mae fy ffyrdd i yn uwch na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi.

Isaiah 55. 1-9

Ho, everyone who thirsts, come to the waters; and you that have no money, come, buy and eat! Come, buy wine and milk without money and without price. Why do you spend your money for that which is not bread, and your labour for that which does not satisfy? Listen carefully to me, and eat what is good, and delight yourselves in rich food. Incline your ear, and come to me; listen, so that you may live. I will make with you an everlasting covenant, my steadfast, sure love for David. See, I made him a witness to the peoples, a leader and commander for the peoples. See, you shall call nations that you do not know, and nations that do not know you shall run to you, because of the Lord your God, the Holy One of Israel, for he has glorified you. Seek the Lord while he may be found, call upon him while he is near; let the wicked forsake their way, and the unrighteous their thoughts; let them return to the Lord, that he may have mercy on them, and to our God, for he will abundantly pardon. For my thoughts are not your thoughts, nor are your ways my ways, says the Lord. For as the heavens are higher than the earth, so are my ways higher than your ways and my thoughts than your thoughts.

Salm 63. 1-8

O Dduw, ti yw fy Nuw, fe'th geisiaf di; y mae fy enaid yn sychedu amdanat, a'm cnawd yn dihoeni o'th eisiau, fel tir sych a diffaith heb ddŵr. Fel hyn y syllais arnat yn y cysegr, a gweld dy rym a'th ogoniant. Y mae dy ffyddlondeb yn well na bywyd; am hynny bydd fy ngwefusau'n dy foliannu. Fel hyn y byddaf yn dy fendithio trwy fy oes, ac yn codi fy nwylo mewn gweddi yn dy enw. Caf fy nigoni, fel pe ar fêr a braster, a moliannaf di â gwefusau llawen. Pan gofiau di ar fy ngwely, a myfyrio amdanat yng ngwyliadwriaethau'r nos - fel y buost yn gymorth imi, ac fel yr arhosais yng nghysgod dy adenydd - bydd fy enaid yn glynu wrthy; a bydd dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

Psalm 63. 1-8

O God, you are my God, I seek you, my soul thirsts for you; my flesh faints for you, as in a dry and weary land where there is no water. So I have looked upon you in the sanctuary, beholding your power and glory. Because your steadfast love is better than life, my lips will praise you. So I will bless you as

long as I live; I will lift up my hands and call on your name. My soul is satisfied as with a rich feast, and my mouth praises you with joyful lips when I think of you on my bed, and meditate on you in the watches of the night; for you have been my help, and in the shadow of your wings I sing for joy. My soul clings to you; your right hand upholds me.

1 Corinthiaid 10. 1-13

Yr wyf am i chwi wybod, fy nghyfeillion, i'n hynafiaid i gyd fod dan y cwmwl, iddynt i gyd fynd drwy'r môr, iddynt i gyd gael eu bedyddio i Moses yn y cwmwl ac yn y môr, iddynt i gyd fwyta'r un bwyd ysbrydol ac yfed yr un ddiod ysbrydol; oherwydd yr oeddent yn yfed o'r graig ysbrydol oedd yn eu dilyn. A Christ oedd y graig honno. Eto nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wrth fodd Duw; oherwydd fe'u gwasgarwyd hwy'n gyrff yn yr anialwch.

Digwyddodd y pethau hyn yn esiamplau i ni, i'n rhybuddio rhag chwenychu pethau drwg, fel y gwnaethant hwy. Peidiwch â bod yn eilunaddolwyr, fel rhai ohonynt hwy; fel y mae'n ysgrifenedig, "Eisteddodd y bobl i fwyta ac yfed, a chodi i gyfeddach." Peidiwn chwaith â chyflawni anfoesoldeb rhywiol, fel y gwnaeth rhai ohonynt hwy - a syrthiodd tair mil ar hugain mewn un diwrnod. Peidiwn â gosod Crist ar ei brawf, fel y gwnaeth rhai ohonynt hwy - ac fe'u difethwyd gan seirff. Peidiwch â grwgnach, fel y gwnaeth rhai ohonynt hwy - ac fe'u difethwyd gan y Dinistrydd. Yn awr, digwyddodd y pethau hyn iddynt hwy fel esiamplau, ac fe'u hysgrifennwyd fel rhybudd i ni, rhai y daeth terfyn yr oesoedd arnom. Felly, bydded i'r sawl sy'n tybio ei fod yn sefyll, wyllo rhag iddo syrthio. Nid oes un prawf wedi dod ar eich gwarthaf nad yw'n gyffredin i bawb. Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano.

1 Corinthians 10. 1-13

I do not want you to be unaware, brothers and sisters, that our ancestors were all under the cloud, and all passed through the sea, and all were baptized into Moses in the cloud and in the sea, and all ate the same spiritual food, and all drank the same spiritual drink. For they drank from the spiritual rock that followed them, and the rock was Christ. Nevertheless, God was not pleased with most of them, and they were struck down in the wilderness.

Now these things occurred as examples for us, so that we might not desire evil as they did. Do not become idolaters as some of them did; as it is written, 'The people sat down to eat and drink, and they rose up to play.' We must not indulge in sexual immorality as some of them did, and twenty-three thousand fell in a single day. We must not put Christ to the test, as some of them did, and were destroyed by serpents. And do not complain as some of them did, and were destroyed by the destroyer. These things happened to them to serve as an example, and they were written down to instruct us, on whom the ends of the ages have come. So if you think you are standing, watch out that you do not fall. No testing has overtaken you that is not common to everyone. God is faithful, and he will not let you be tested beyond your strength, but with the testing he will also provide the way out so that you may be able to endure it.



Luc 13. 1-9

Yr un adeg, daeth rhywrai a mynegi iddo am y Galileaid y cymysgodd Pilat eu gwaed â'u hebyrth. Atebodd ef hwy, "A ydych chi'n tybio fod y rhain yn waeth pechaduriaid na'r holl Galileaid eraill, am iddynt ddioddef hyn? Nac oeddent, meddaf wrthyh; eto, os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd. Neu'r deunaw hynny y syrthiodd y tŵr arnynt yn Siloam a'u lladd, a ydych chi'n tybio fod y rhain yn waeth troseddwy na holl drigolion eraill Jerwsalem? Nac oeddent, meddaf wrthyh; eto, os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd."

Adroddodd y ddameg hon: "Yr oedd gan rywun ffigysbren wedi ei blannu yn ei winllan. Daeth i chwilio am ffrwyth arno, ac ni chafodd ddim. Ac meddai wrth y gwinllannwr, 'Ers tair blynedd bellach yr wyf wedi bod yn dod i geisio ffrwyth ar y ffigysbren hwn, a heb gael dim. Am hynny tor ef i lawr; pam y caiff dynnu maeth o'r pridd?' Ond atebodd ef, 'Meistr, gad iddo eleni eto, imi balu o'i gwmpas a'i wrteithio. Ac os daw â ffrwyth y flwyddyn nesaf, popeth yn iawn; onid e, cei ei dorri i lawr.'"

Luke 13. 1-9

At that very time there were some present who told him about the Galileans whose blood Pilate had mingled with their sacrifices. He asked them, 'Do you think that because these Galileans suffered in this way they were worse sinners than all other Galileans? No, I tell you; but unless you repent, you will all perish as they did. Or those eighteen who were killed when the tower of Siloam fell on them - do you think that they were worse offenders than all the others living in Jerusalem? No, I tell you; but unless you repent, you will all perish just as they did.'

Then he told this parable: 'A man had a fig tree planted in his vineyard; and he came looking for fruit on it and found none. So he said to the gardener, "See here! For three years I have come looking for fruit on this fig tree, and still I find none. Cut it down! Why should it be wasting the soil?" He replied, "Sir, let it alone for one more year, until I dig round it and put manure on it. If it bears fruit next year, well and good; but if not, you can cut it down."'

Ôl Gymun 47

Erfyniwn arnat, hollalluog Dduw, edrych ar ddeisyfiadau gostyngedig dy weision ufudd, ac estyn deheulaw dy fawredd, i fod yn ymwared i ni rhag ein holl elynion; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 47

We beseech you, almighty God, look upon the heartfelt desires of your humble servants, and stretch forth the right hand of your majesty, to be our defence against all our enemies; through Jesus Christ our Lord.